

Pecyn Dogfennau Cyhoeddus

Penallta House,
Tredomen Park,
Ystrad Mynach,
Hengoed CF82 7PG

Ty Penallta,
Parc Tredomen,
Ystrad Mynach,
Hengoed CF82 7PG



www.caerphilly.gov.uk
www.caerffili.gov.uk

Am unrhyw ymholiad yn ymwneud â'r agenda hwn cysylltwch â Amy Dredge
(Rhif Ffôn: 01443 863100 E-bost: dredga@caerphilly.gov.uk)

Dyddiad: Dydd Mercher, 10 Hydref 2018

Annwyl Syr/Fadam,

Bydd cyfarfod **Cabinet** yn cael ei gynnal yn **Ystafell Sirhywi, Tŷ Penallta, Tredomen, Ystrad Mynach** ar **Dydd Mercher, 17eg Hydref, 2018** am **10.30 am**. i ystyried materion a gynhwysir yn yr agenda canlynol. Gall cynghorwyr a'r cyhoedd sy'n dymuno siarad am unrhyw eitem wneud hynny drwy wneud cais i'r Cadeirydd. Mae croeso i chi hefyd ddefnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod. Mae'r ddau gais hyn yn gofyn am gyfnod rhybudd o 3 diwrnod gwaith, a bydd cyfieithu ar y pryd yn cael ei ddarparu os gofynnir amdano.

Mae pob cyfarfod Pwyllgor yn agored i'r Wasg a'r Cyhoedd. Gofynnir i arsylwyr a chyfranogwyr ymddwyn gyda pharch ac ystyriaeth at eraill. Sylwer y bydd methu â gwneud hynny yn golygu y gofynnir i chi adael y cyfarfodydd ac efallai y cewch eich hebrwng o'r safle.

Yr eiddoch yn gywir,

Christina Harrhy
PRIF WEITHREDWR DROS DRO

A G E N D A

Tudalennau

- 1 I dderbyn ymddiheuriadau am absenoldeb
- 2 Datganiadau o Ddiddordeb.

Atgoffi'r Cynghorwyr a Swyddogion o'u cyfrifoldeb personol i ddatgan unrhyw fuddiannau personol a/neu niweidiol mewn perthynas ag unrhyw eitem o fusnes ar yr agenda hwn yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 2000, Cyfansoddiad y Cyngor a'r Cod Ymddygiad ar gyfer Cynghorwyr a Swyddogion.

A greener place Man gwyrddach



I gymeradwyo a llofnodi'r cofnodion canlynol:-

3	Cabinet a gynhaliwyd ar 3ydd Hydref 2018.	1 - 8
4	Adennill costau clirio Tipio Anghyfreithlon.	9 - 12
5	Gweithredu Cronfa Gymdeithasol Ewropeaidd Meithrin Arfogi Ffynu (MAFf).	13 - 18
6	Fframwaith Gofal Cartref.	19 - 26
7	Gwaith Cyfalaf.	27 - 28

Cylchrediad:

Cynghorwyr

C.J. Cuss, N. George, C.J. Gordon, Mrs B. A. Jones, P.A. Marsden, S. Morgan, L. Phipps, D.V. Poole a Mrs E. Stenner,

A Swyddogion Priodol.

SUT FYDDWN YN DEFNYDDIO EICH GWYBODAETH

Bydd yr unigolion hynny sy'n mynychu cyfarfodydd pwyllgor i siarad/roi tystiolaeth yn cael eu henwi yng nghofnodion y cyfarfod hynny, weithiau bydd hyn yn cynnwys eu man gweithio neu fusnes a'r barnau a fynegir. Bydd cofnodion o'r cyfarfod gan gynnwys manylion y siaradwyr ar gael i'r cyhoedd ar wefan y Cyngor ar www.caerffili.gov.uk. ac eithrio am drafodaethau sy'n ymwneud ag eitemau cyfrinachol neu eithriedig.

Mae gennych nifer o hawliau mewn perthynas â'r wybodaeth, gan gynnwys yr hawl i gael mynediad at wybodaeth sydd gennym amdanoch a'r hawl i gwyno os ydych yn anhapus gyda'r modd y mae eich gwybodaeth yn cael ei brosesu.

Am wybodaeth bellach ar sut rydym yn prosesu eich gwybodaeth a'ch hawliau, ewch i'r Hysbysiad Preifatrwydd Cyfarfodydd Pwyllgor Llawn ar ein gwefan <http://www.caerffili.gov.uk/Pwyllgor/Preifatrwydd> neu cysylltwch â Gwasanaethau Cyfreithiol drwy e-bostio griffd2@caerffili.gov.uk neu ffoniwch 01443 863028.



CABINET

COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD YN NHŶ PENALLTA, TREDOMEN AR DDYDD MERCHER, 3YDD HYDREF 2018 AM 10.30A.M.

YN BRESENNOL:

Y Cyngorydd D. Poole - Cadeirydd

Cynghorwyr:

C. Cuss (Gofal Cymdeithasol a Lles), C.J. Gordon (Gwasanaethau Corfforaethol), Mrs B.A. Jones (Cyllid, Perfformiad a Llywodraethu), P. Marsden (Addysg a Chyflawniad), S. Morgan (Economi, Isadeiledd a Chynaliadwyedd), L. Phipps (Cartrefi a Lleoedd) ac E. Stenner (Yr Amgylchedd a Diogelwch y Cyhoedd).

Ynghyd â:

C. Harrhy (Prif Weithredwr Dros Dro), D. Street (Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol), ac R. Edmunds (Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol).

Hefyd yn Bresennol:

R.Hartshorn (Pennaeth Diogelwch y Cyhoedd a Gwasanaethau'r Gymuned a Hamdden), S. Harris (Pennaeth Gwelliannau Busnes Dros Dro), R. Tranter (Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Swyddog Monitro), R. Kyte (Pennaeth Adfywiad a Chynllunio), M. Williams (Pennaeth Gwasanaethau Adeiladau Dros Dro), K. Peters (Rheolwr Polisi Corfforaethol), A. Cullinane (Uwch Swyddog Polisi - Cydraddoldeb a'r Iaith Gymraeg), M. Godfrey (Arweinydd Tîm - Iechyd yr Amgylchedd) ac A. Dredge (Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor).

1. YMDDIHEURIADAU DROS ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau dros absenoldeb gan y Cynghorwyr N. George (Gwasanaethau'r Gymdogaeth) a M. S. Williams (Cyfarwyddwr Corfforaethol Dros Dro - Cymunedau).

2. DATGANIADAU O DDIDDORDEB

Ni chafwyd datganiadau o ddiddordeb ar ddechrau nac yn ystod y cyfarfod.

3. CABINET ARBENNIG– 12FED MEDI 2018

PENDERFYNWYD cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12fed Medi 2018 (rhifau cofnod. 1-7) a'u llofnodi fel cofnod cywir.

4. CABINET - 19EG MEDI 2018

PENDERFYNWYD cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 19eg Medi 2018 (rhifau cofnod. 1-7) a'u llofnodi fel cofnod cywir.

MATERION OEDD ANGEN PENDERFYNIADAU GWEITHREDOL

5. STRATEGAETH AR GYFER GWAREDU TIR DETHOL GYDA PHOTENSIAL DATBLYGIADOL PRESWYL

Roedd yr adroddiad yn gofyn am gymeradwyaeth y Cabinet mewn perthynas â strategaeth ar gyfer gwaredu pum parcel allweddol o dir sydd oll yn addas ar gyfer ailddatblygu preswyl. Mae gan yr Awdurdod gyfran sylweddol o dir dros ben, ac mae rhai ohonynt yn addas ar gyfer datblygiad preswyl.

Hysbyswyd y Cabinet bod darparu tai fforddiadwy o fewn y Fwrdeistref yn brin o'r targed. O'r 1af o Ebrill 2017 roedd 4,523 o unedau (52% o'r gofyniad) wedi'u hadeiladu ac felly mae'n glir na fydd y ffigwr gofynion tai yn cael ei gyflawni erbyn 2021. Pan fo'r Awdurdod yn gwerthu tir mae cyfle i sicrhau bod tai fforddiadwy yn cael eu cynnwys ac i gynyddu cyfran y tai fforddiadwy uwchlaw targedau Cynlluniau Datblygu Lleol (CDLI) lle bo'n briodol, er bod y posibilrwydd o ostyngiad yn y derbyniad cyfalaf cysylltiedig.

Eglurwyd bod Protocol yr Awdurdod ar gyfer Gwaredu Eiddo (Tir ac Adeiladau) yn argymhell bod gwaredu'r gwahanol rannau bach o dir (lle mae'r potensial datblygu yn llai na 20 annedd) yn parhau yn unol â'r Protocol. Argymhellir ymhellach bod yr Awdurdod yn ystyried y strategaeth waredu ar gyfer y rhannau mwy o dir dros ben presennol ac yn y dyfodol ac yn benodol i benderfynu a yw cynyddu'r dosbarthiad o gartrefi fforddiadwy yn cael ei gyfiawnhau. Adolygwyd ac aseswyd y tir dros ben sydd â photensial datblygu preswyl o ran rhwystrau i ffactorau datblygu a lleoliad. Nodwyd y pum parcel o dir canolig neu fawr, a fyddai'n fasnachol ddeniadol i gwmnïau datblygu tai, yn yr adroddiad a oedd hefyd yn cynnwys yr ystyriaethau sy'n ymwneud â phob un o'r safleoedd gydag argymhelliad o'r ffordd ymlaen.

Trafododd y Cabinet y safleoedd arfaethedig a gofynnodd am eglurhad ynghylch ystyried darpariaeth ieched yn ardal Coed Duon oherwydd y cynnydd mewn datblygu tai. Esboniodd swyddogion fod yn rhaid i'r Awdurdod ystyried cynhwysedd ysgolion a meddygfeydd meddygon teulu yn y dalgylchoedd fel rhan o'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) arfaethedig. Lle'r oedd angen ar gyfer darpariaeth ddynodedig newydd, nodir tir o fewn y CDLI er mwyn gallu cyflenwi'r ddarpariaeth honno. Hysbyswyd y Cabinet bod cyflwyno'r ddarpariaeth honno wedyn yn fater i'r corff perthnasol, e.e. yr Awdurdod Iechyd, yr Awdurdod Addysg. Cyfeiriodd Aelod at Safle A - Tŷ Darren, Rhisga a'r ymateb i'r Ymgynghoriad a gynhaliwyd. Hysbyswyd y Cabinet fod Aelod etholedig lleol yn awgrymu adnewyddu'r adeilad a'i ddefnyddio i ddarparu gwelyau seibiant neu ar gyfer henoed, bregus eu meddwl (EMI) er mwyn hwyluso'r mater blocio gwelyau. Cadarnhaodd y swyddogion nad ystyrir bod y cyfleuster hwn yn angenrheidiol gan fod 113 o welyau preswyl a nyrsio gwag ar gael ar draws y Fwrdeistref ar hyn o bryd.

O ran cyrraedd targedau Tai fforddiadwy lleol, sicrhawyd yr Aelodau y bydd y canrannau'n cael eu cyflawni gan y bydd y telerau'n cael eu pennu o fewn y Contract Gwerthu. Roedd y Cabinet yn falch o gefnogi'r adroddiad ac yn teimlo bod y tai arfaethedig yn anfon neges bositif ar draws y rhanbarth. Bydd hyn yn caniatáu i blant dyfu i fyny a byw yn y Sir. Rhoddwyd pwyslais ar y manteision economaidd a gaiff eu creu oblegid Tai o safon uchel.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth ac yn ddarostyngedig i welliant ym mharagraff 10.5 i gynnwys penderfyniad i ohirio penderfyniad ar Ysgol Gyfun Pontllan-fraith hyd nes y penderfynir ar ddyfodol Hamdden Pontllan-fraith, cafodd ei gynnig a'i eilio, i gymeradwyo'r argymhelliion yn yr adroddiad. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

PENDERFYNWYD yn amodol ar welliant ym mharagraff 10.5 i gynnwys "a bod penderfyniad yn cael eu gwneud ar ddyfodol Canolfan Hamdden Pontllan-fraith" ac am y rhesymau a gynhwysir yn adroddiad y Swyddog, cymeradwyir y canlynol: -

- (i) Safle A - Tŷ Darren, Rhisga. Os cadarnheir bod Cartrefi Caerffili yn dymuno adeiladu llety lloches ar y safle yna gwerthir y safle iddynt. Fel arall argymhellir bod y safle'n cael ei werthu ar y farchnad agored ar gyfer tai gyda gofyniad cytundebol bod 10% o'r cartrefi'n fforddiadwy yn unol â gofynion y CDLI;
- (ii) Safle B - Meysydd Chwarae Ysgol Bedwellte. Gan dybio bod y safle wedi ei ddatgan yn weddill pan ddaw'r broses ymgynghori bresennol i ben, bod y Pennaeth Gwasanaethau Eiddo Dros Dro mewn ymgynghoriad â'r Aelod Cabinet dros Gartrefi a Lleoedd yn trafod gwerthiant i Ddatblygiadau Llanmoor. Fodd bynnag, os na ellir cyflawni'r gwerth cyfredol ar y farchnad yna rhaid gwerthu'r safle ar y farchnad agored trwy broses dendro gystadleuol. Yn y naill achos neu'r llall, mae'r gwerthiant i gynnwys ymrwymiad cytundebol bod 15% o'r cartrefi'n fforddiadwy;
- (iii) Safle C - Tŷ Pontllan-fraith. Datblygir cynllun gyda LCC i gynnwys cyfrannau sy'n gymharol gyfartal o dai rhent cymdeithasol, perchnogaeth ar y cyd ac aneddau gwerthu marchnad, a bod telerau masnachol yn cael eu sefydlu ar gyfer gwerthiant llwyr a'r modelau Prydles i'w hystyried a'u cymeradwyo ymhellach gan y Cabinet;
- (iv) Safle Ch - Ysgol Gyfun Pontllan-fraith. Gohirio penderfyniad terfynol ar y ffordd ymlaen ar gyfer y safle hwn nes bod y cynigion ar gyfer Tŷ Pontllan-fraith (Safle C) yn cael eu datblygu ymhellach a chymerir penderfyniad ar ddyfodol Canolfan Hamdden Pontllan-fraith. Cadarnheir y gall dymchwel yr adeiladau ysgol sydd heb eu defnyddio fynd yn ei flaen unwaith y bydd penderfyniad ar ddyfodol Canolfan Hamdden Pontllan-fraith;
- (v) Safle D - Ysgol Gyfun Oakdale. Gwerthir y safle ar y farchnad agored gyda chontract gwerthu sy'n mynnu bod targed y CDLI o 25% o'r anheddau yn fforddiadwy yn cael ei gyflawni.

6. CYNLLUN CYDRADDOLDEB STRATEGOL - ADRODDIAD MONITRO A GWELLA BLYNYDDOL 2017-2018

Roedd yr adroddiad yn gofyn am gefnogaeth y Cabinet am y cynnydd a wnaed yn ystod y flwyddyn ariannol 2017-2018 yn erbyn targedau yng Nghynllun Cydraddoldeb Strategol cyfredol y Cyngor, a chymeradwyaeth i'w gyflwyno i'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol a'i gyhoeddi ar wefan y Cyngor.

Nododd y Cabinet fod gan y Cyngor ddyletswydd statudol i gynhyrchu adroddiad monitro blynyddol ar faterion Cydraddoldeb dan y ddeddfwriaeth bresennol. Mae'r gofynion yn fanwl iawn o ran pa wybodaeth berthnasol sydd angen ei chynnwys yn yr adroddiad monitro a gwella blynyddol 2017/18 (yn atodol i'r adroddiad). O ganlyniad, mae'r swm o wybodaeth a gyflwynir er mwyn sicrhau bod y corff rheoleiddio sy'n gysylltiedig (y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol) yn cael eu darparu gyda thystiolaeth lawn o gydymffurfiaeth ac ymrwymiad y Cyngor i'r dyletswyddau statudol hynny. Er mwyn cydymffurfio â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yng Nghymru, rhaid cyhoeddi adroddiad blynyddol ar y Cynllun Cydraddoldeb Strategol o fewn 12 mis ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol y mae'r adroddiad hwnnw'n ymdrin â hi.

Cyfeiriwyd yr aelodau at baragraff 4.3. yn yr adroddiad sy'n crynhoi'r wybodaeth am berfformiad a gafwyd yn ystod y flwyddyn ariannol 2017/18. Yn 2016 gwnaeth yr Awdurdod ei gyflwyniad blynyddol cyntaf i Fynegai Cydraddoldeb Addysg Stonewall lle derbyniwyd cydnabyddiaeth

arbennig am y gwaith a wnaed i fynd i'r afael â bwlio homoffobig, biffobig a thrawsffobig mewn ysgolion. Roedd yr Awdurdod hefyd wedi ei leoli yn y safle 1af yng Nghymru a'r 21ain safle ar draws y DU cyfan. Bu'r cyflwyniad y llynedd yn fodd i gynnal y safleoedd hyn. Cyhoeddodd y Cyngor ei Ddatganiad Bwlch Cyflog Rhwng y Rhywiau cyntaf ar gyfer 2017. Dangosodd y data mai'r Bwlch Cyflog Rhwng y Rhywiau Cymedrig am y flwyddyn oedd 8.9%. Mae'r Cyngor yn hyderus nad yw ei fwlch cyflog rhwng y rhywiau yn deillio o dalu cyflogeion gwrywaidd a benywaidd yn wahanol am yr un gwaith neu waith cyfatebol. Mae'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn deillio o rolau lle mae gwrywod a menywod yn gweithio ar hyn o bryd a'r cyflogau y mae'r rolau hyn yn eu denu. Mae'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau hefyd yn adlewyrchu achosion bwlch cyflog rhwng y rhywiau ar lefel gymdeithasol lle mae rhieni yn gynyddol hyblyg, mae cyfrifoldeb gofal plant yn dal i fod yn anghymesur ar fenywod. Mae'n ffaith, o fewn y data hwn, bod y mwyafrif helaeth o swyddi rhan amser yn cael eu cynnal gan fenywod ac mai dyma'r swyddi sy'n denu cyflogau yn y chwarteli isaf. Defnyddiwyd £104,000 o gyllid i gefnogi gwaith gwella mynediad i bobl anabl. Roedd hyn yn cynnwys mynediad i byllau nofio, gosod drysau awtomatig a rampiau i adeiladau addysg a phrynu meinciau picnic hygyrch mewn parciau gwledig. Gwnaethpwyd cyfraniad hefyd i gynorthwyo gyda'r gwaith gwella i ddarparu toiledau hygyrch ym Mharc Morgan Jones. Ysgol Gynradd Rhiw Syr Dafydd oedd yr ysgol gyntaf yn y Fwrdeistref Sirol i gael Gwobr Dementia Gyfeillgar gan Gymdeithas Alzheimer. Dywedodd y Swyddogion y cynhaliwyd nifer o weithgareddau hyrwyddo gan gynnwys Diwrnod Shwmae, Mis Hanes LHDT, Mis Hanes Pobl Dduon, Diwrnod Cofio'r Holocaust a Diwrnod Rhyngwladol y Menywod.

Diolchodd y Cabinet i'r Swyddogion am ymgymryd â'r adroddiad rhagnodol. Mae'r adroddiad yn dangos faint o waith cadarnhaol ac arfer da mae'r Cyngor yn ei gyflawni er budd yr unigolion a'r grwpiau hynny sy'n dod o dan un neu ragor o'r nodweddion gwarchoddedig a materion Cydraddoldeb ehangach. Roedd y Cadeirydd yn falch o nodi ei fod wedi penodi Hyrwyddwr LHDT yn ddiweddar a fydd yn ei dro yn penodi cynghorydd i godi ymwybyddiaeth. O ran ystadegau rhywedd, mae gan y Cabinet ranniad gwrywod / menywod 50% / 50% ac mewn perthynas â'r Rhwydwaith Rheoli, cadarnhawyd bod y rhaniad yn 55 o fenywod, 49 o wrywod.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhelliad yn yr adroddiad yn cael ei gymeradwyo. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

PENDERFYNWYD cymeradwyo'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol - Adroddiad Monitro a Gwella Blynyddol 2017-2018 am y rhesymau a geir yn adroddiad y Swyddog, a'u cyflwyno i'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol a'u cyhoeddi ar wefan y Cyngor.

7. MEYSYDD CHWARAE CYMRU - RHAGLEN CAEAU CANMLWYDDIANT

Roedd yr adroddiad yn gofyn am gymeradwyaeth y Cabinet ar gyfer ymroddiad ffurfiol Gardd Goffa'r Rhyfel yng Nghwmfelin-fach fel rhan o Raglen Caeau Canmlwyddiant Meysydd Chwarae Cymru. Esboniodd y swyddogion, lansiodd Meysydd Chwarae Cymru (MChC) fenter newydd o'r enw Caeau Canmlwyddiant ym mis Gorffennaf 2014. Mae hwn yn brosiect ledled y DU sydd â'r nod o ddiogelu meysydd cofeb rhyfel am byth, manau gwyrdd sy'n cynnwys cofebion rhyfel ledled y DU ac yn rhoi coffa addas i Ganmlwyddiant y Rhyfel Byd Cyntaf. Mae MChC wedi sefydlu partneriaeth gyda'r Llang Prydeinig Brenhinol sydd wedi mabwysiadu Maes Canmlwyddiant fel un o dri chynllun blaenllaw sy'n ffurfio eu portffolio o waith sy'n coffáu'r Rhyfel Byd Cyntaf.

Dywedwyd wrth y Cabinet fod y fenter Caeau Canmlwyddiant yn anelu at sicrhau ardaloedd hamdden am byth er mwyn anrhydeddu'r cof am y miliynau o bobl a gollodd eu bywydau yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf. Drwy'r rhaglen hon, mae tiffeddianwyr ledled y DU yn cael eu hannog i neilltuo ardal hamdden fel Cae Canmlwyddiant. Bydd y rhaglen yn coffáu'r garreg filltir bwysig hon mewn hanes a chreu etifeddiaeth leol diriaethol a fydd yn cael ei werthfawrogi gan gymunedau am genedlaethau i ddod. Mae gan yr Awdurdod 38 o gofebion rhyfel ar draws y Fwrdeistref Sirol sy'n coffáu'r rhai a syrthiodd yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf, yr Ail Ryfel Byd a gwrthdrawiadau eraill. Cyfeiriwyd yr aelodau at y cynllun, ynghlwm wrth yr adroddiad sy'n

dangos yr Ardd Goffa yng Nghwmfelin-fach. Mae'r safle wedi'i nodi fel lleoliad addas i'w neilltuo fel cyfraniad yr Awdurdod tuag at y fenter Caeau Canmlwyddiant.

Ymgynghorwyd ag Aelodau Ward Lleol fel rhan o'r ymarfer a oedd yn cefnogi'r cynnig i ddarparu etifeddiaeth goffaol o wrthdaro'r Rhyfel Byd Cyntaf 1914-18 ac i gefnogi Rhaglen Caeau Canmlwyddiant Meysydd Chwarae Cymru a'r Llen Prydeinig Brenhinol. Adleisiwyd hyn gan y Cabinet.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhelliad yn yr adroddiad yn cael ei gymeradwyo. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

PENDERFYNWYD, yn amodol am y rhesymau a gynhwysir yn Adroddiad y Swyddog:-

- (i) cymeradwyo cysegru Gardd Goffa'r Rhyfel yng Nghwmfelin-fach fel Cae Canmlwyddiant;
- (ii) yn dilyn y cais llwyddiannus, mae'r Awdurdod yn ymrwymo i Weithred Gysegru gyda'r Sefydliad Meysydd Chwarae Cymru.

8. CYFARWYDDEB ANSAWDD AER HAFOD-YR-YNYS

Roedd yr adroddiad yn gofyn am gymeradwyaeth y Cabinet ar gyfer y Cynllun Cychwynnol ar gyfer sicrhau cydymffurfiaeth â'r Gyfarwyddeb Ansawdd Aer Amgylchol yn Hafod-yr-ynys yn unol â'r Cyfarwyddyd Ansawdd Aer a roddwyd i'r Awdurdod gan Lywodraeth Cymru.

Nododd y Cabinet fod yr amcanion ansawdd aer nitrogen deuocsid cenedlaethol yn ormodol ar leoliadau derbynyddion ar Heol Hafod-yr-ynys. Mae'n ofynnol i'r awdurdod lleol ddynodi unrhyw faes sy'n methu'r amcanion ansawdd aer cenedlaethol fel Ardal Rheoli Ansawdd Aer (ARhAA) a chynhyrchu Cynllun Gweithredu Ansawdd Aer (CGAA) sy'n nodi mesurau i ddod â'r llygrydd yn ôl o fewn terfynau. Cymeradwywyd y CGAA gan y Cabinet a Llywodraeth Cymru wedi hynny ym mis Mawrth 2018. Yn ychwanegol at ddarparu canlyniadau sy'n llywio'r drefn Rheoli Ansawdd Awyr Lleol a phroses cynllunio gweithredu, mae'r monitor nitrogen deuocsid parhaus yn Hafod-yr-ynys hefyd yn rhan o Rwydwaith Awtomatig Trefol a Gwledig (RhATG) DEFRA. Mae'r RhATG yn rhwydwaith o fonitro parhaus ledled y DU sy'n hysbysu Model Hinsawdd Llygredd cenedlaethol a ddefnyddir at ddibenion adrodd ansawdd aer i'r UE i ddangos cydymffurfiaeth â'r Gyfarwyddeb Ansawdd Aer Amgylchol. Mae Hafod-yr-ynys a Chaerdydd yn ddwy ardal yng Nghymru sy'n dangos diffyg cydymffurfio â'r Gyfarwyddeb Ansawdd Aer Amgylchol.

Ym mis Chwefror 2018 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Gyfarwyddeb Ansawdd Aer i Gyngor Caerffili i gynnal astudiaeth ddichonoldeb ar gyfer yr ardal ac i gynhyrchu opsiwn dewisol neu fasedged opsiynau a fydd yn sicrhau cydymffurfiaeth ag amcanion ansawdd aer y Gyfarwyddeb Ansawdd Aer Amgylchol yn yr 'amser byrraf posibl'. Cyfeiriwyd at adroddiad Cam 2 (ynghlwm wrth yr adroddiad) ac mae'n cynnwys y manylion ar fodelu ansawdd yr opsiynau o ansawdd aer. Eglurwyd mai gofyniad terfynol y Gyfarwyddeb Ansawdd Aer yw cynhyrchu Cynllun Terfynol (Aseiad Cyfnod 3 WeITAG), y mae'n rhaid ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn 30ain Mehefin 2019 fan bellaf. Bydd y Cynllun Terfynol yn cynnwys achos busnes wedi'i gostio'n llawn o'r opsiwn dewisol / basged opsiynau ar gyfer sicrhau cydymffurfiaeth â Chyfarwyddeb Ansawdd Aer yr UE yn Hafod-yr-ynys.

Mae'r broses y mae LLC yn gofyn amdani yn cynnwys cynhyrchu tri adroddiad sy'n cynnwys adroddiad Cam 1 WeITAG sy'n paratoi'r ffordd o ran ardal yr astudiaeth ac yn trafod peth o'r monitro traffig a gynhaliwyd yn ddiweddar. Mae'r adroddiad hefyd yn ystyried yr opsiynau a ddaeth ymlaen o weithdy rhanddeiliaid ac mae'n diystyru'r opsiynau nad oeddent yn bodloni'r aseiad (yn seiliedig ar 3 maen prawf allweddol sef, effeithiolrwydd, amserlenni a chyflawnadwyedd) gan ddod â'r rhestr o gynigion i lawr o 30 i 10. Amcan adroddiad cam 2 WeITAG yw ystyried y cynigion a dynnwyd o gam 1 ac i fodelu canlyniadau'r cynigion o ran traffig ac ansawdd yr aer a dod i'r casgliad o opsiwn dewisol neu fasedged opsiynau i'w symud

ymlaen i WeITAG Cam 3. Mae adroddiad Cam 2 ar gyfer Hafod-yr-ynys wedi ystyried yr opsiynau o ran ansawdd aer. Bydd adroddiad Cam 3 (sef y Cynllun Terfynol) yn cynnwys yr holl fodelu trafndiaeth ac ansawdd aer perthnasol a fydd yn darparu canlyniadau mesuradwy er mwyn penderfynu a yw'r opsiynau'n briodol wrth leihau lefelau NO₂ yn Hafod-yr-ynys i ddod â'r ardal yn ôl i gydymffurfiaeth â Chyfarwyddeb Ansawdd Aer yr UE. Nodir y cynigion a gafodd eu diystyru yn ystod asesiad cam 2 ym mharagraff 4.6. yn yr adroddiad.

Dywedodd y Swyddogion fod angen diwygiadau o fewn y pecyn agenda dan y pennawd: Materion Eraill - (Dichonoldeb Technegol, Gweithredol ac Ariannol) a ddylai ddarllen ar dudalen 271 - wedi eu diystyru ar effeithiolrwydd, tudalen 274 - wedi'i ddiystyru ar ddichonoldeb, tudalen 275 - wedi'i ddiystyru ar ddichonoldeb, a thudalen 278 - wedi'i ddiystyru ar amserlenni. Mae'r ardal yn Nheras Min-y-coed hefyd yn cynnwys rhifau 1 a 2 Siopau Min-y-coed ac Yr Adfa (annedd ar wahân).

Trafododd y Cabinet yr adroddiad yn fanwl a diolchodd i'r Swyddogion am faint o waith a wnaed wrth gynhyrchu'r Adroddiadau Cyntaf ac Ail Gam. Gofynnodd y Cabinet i'r Swyddogion archwilio dichonoldeb seithfed opsiwn wrth symud ymlaen, trwy asesu'r effaith ar allyriadau lleihau terfyn cyflymder y ffordd rhwng Teras Min-y-coed a Chyffordd Swffryd i 30 mya, ynghyd â chael gwared ar y lôn goddiweddu, i ganiatáu cyfyngiad cyflymder cyson ar gyfer y darn llawn o heol. Dywedodd swyddogion fod yr Adran Priffyrdd wedi cael ei ymgynghori fel rhan o'r broses wrth ystyried y cynigion ac ni ystyriwyd y byddai cerbydau'n fwy effeithlon trwy ostwng cyflymder. Mae'r A472 yn rhedeg trwy Hafod-yr-ynys sy'n ddolen gyswllt strategol i'r cymoedd. I'r gwrthwyneb, mynegwyd pryderon mewn perthynas â'r effaith y gallai fod gan y cynnig ychwanegol hwn i yrwy'r CNT a'r problemau posibl y gallai hyn achosi i'r defnyddwyr ffyrdd hynny.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhelliad yn yr adroddiad yn cael ei gymeradwyo. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

PENDERFYNWYD yn amodol ar y diwygiadau uchod o dan y pennawd: Materion Eraill - (Dichonoldeb Technegol, Gweithredol ac Ariannol) a ddylai ddarllen ar dudalen 271 - wedi eu hepgor ar effeithiolrwydd, tudalen 274 - wedi'i ddiystyru ar ddichonoldeb, tudalen 275 - wedi'i ddiystyru ar ddichonoldeb a thudalen 278 - wedi'i ddiystyru ar amserlenni. Yr ardal yn Nheras Min-y-coed i gynnwys rhifau 1 a 2 Siopau Min-y-coed ac Yr Adfa (annedd ar wahân). Gofynnodd y Cabinet i'r Swyddogion archwilio dichonoldeb seithfed opsiwn wrth symud ymlaen, trwy asesu'r effaith ar allyriadau lleihau terfyn cyflymder y ffordd rhwng Teras Min-y-coed a Chyffordd Swffryd i 30 mya, ynghyd â chael gwared ar y lôn goddiweddu i ganiatáu cyfyngiad cyflymder cyson ar gyfer y rhan gyfan o heol, yn amodol ar hyn ac am y rhesymau a geir yn adroddiad y Swyddog: -

- (i) y dylid cymeradwyo'r Cynllun Cychwynnol ar gyfer gweithio tuag at gydymffurfio â'r Gyfarwyddeb Ansawdd Aer Amgylchol yn Hafod-yr-ynys yn unol â'r Cyfarwyddyd Ansawdd Aer a roddwyd i'r Awdurdod gan Lywodraeth Cymru;
- (ii) cyflwynir adroddiad pellach (gydag ychwanegu Opsiwn 7 uchod) i'r Cabinet ar y Cynllun Terfynol ar gyfer sicrhau cydymffurfiaeth â'r Gyfarwyddeb Ansawdd Aer Amgylchol yn Hafod-yr-ynys cyn ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru ym Mehefin 2019.

ARGYMHELLION I'R CYNGOR

9. ADRODDIAD PERFFORMIAD BLYNYDDOL 2017/18

Gofynnodd yr adroddiad am gymeradwyaeth y Cabinet o'r Adroddiad Perfformiad Blynyddol ar gyfer 2017/18 cyn ei gyflwyno i'r Cyngor ar 9fed Hydref 2018 a'i gyhoeddi erbyn 30ain Hydref 2018. Mae'r Adroddiad Perfformiad yn ofyniad statudol o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 ac yn rhan bwysig o Fframwaith Perfformiad y Cyngor. Mae'n ofynnol i'r Cyngor i asesu ei

berfformiad ei hun a darparu darlun cytbwys o'i berfformiad i'r cyhoedd. Yn ogystal, rhaid i'r adroddiad ddangos sut y perfformiodd y cyngor yn erbyn yr Amcanion Lles a osododd ar gyfer ei hunan ar gyfer 2017/18. Mae gan y Cyngor ddyletswydd statudol i gyhoeddi ei Adroddiad Perfformiad ddim hwyrach na 30ain Hydref bob blwyddyn ar wefan y Cyngor a'i fod ar gael mewn copi caled yn swyddfeydd a llyfrgelloedd allweddol y cyngor. Mae'r adroddiad yn cynnwys crynodeb yr Arweinydd a chrynodeb y Prif Weithredwr Dros Dro o'r flwyddyn, datganiadau ariannol, cynnydd a chyflawniadau a wnaed yn erbyn y 5 Amcan Lles, a chymhariaeth gwyno perfformiad yn erbyn Mesurau Atebolrwydd Cyhoeddus cenedlaethol ar gyfer 2017/18 ar gyfer Awdurdodau Lleol.

Cynghorwyd y Cabinet bod archwiliadau manwl a dangosfyrddau perfformiad y Cyngor yn erbyn ei Amcanion Lles yn cael eu harchwilio yng Nghyfarfodydd Craffu perfformiad y flwyddyn eleni. Bydd y rhain yn cael eu rhoi ar y wefan ar yr un pryd â'r Adroddiad Perfformiad i ddarparu mwy o fanylion a chadw'r adroddiad i faint y gellir ei reoli; fel y cyfryw, mae'r prif adroddiad yn darparu pwyntiau allweddol o berfformiad yr Amcanion Lles. Cyfeiriwyd yr aelodau at baragraff 4.4.2. yn yr adroddiad sy'n nodi Amcanion Lles y Cyngor (ALLion) ar gyfer 2017/2018. Barnwyd bod tri ohonynt yn rhannol lwyddiannus, sef: Gwella canlyniadau ar gyfer pob dysgwr, yn enwedig y rheini sy'n agored i dan berfformiad, Rheoli Carbon: Lleihau ein hól troed carbon a Buddsoddi mewn cartrefi cyngor i drawsnewid bywydau a chymunedau. Barnwyd bod ALI 1 a 3 yn llwyddiannus, sef: Cynorthwyo pobl i wneud y defnydd gorau o incwm eu cartrefi a rheoli eu dyledion a Chau'r bwlch mewn disgwyliad oes i drigolion rhwng yr ardaloedd mwyaf difreintiedig a'r lleiaf difreintiedig yn y fwrdeistref.

Gwnaed y dyfarniadau yn seiliedig ar a oedd yr ALLion unigol wedi cyflawni'r canlyniadau a osodwyd. Eglurwyd bod y dangosyddion o fewn safle Cymru gyfan wedi cael symudiad cyfyngedig yn gyffredinol, o'i gymharu â'r llynedd, gyda'r dangosyddion hynny yn y chwarteri isaf yn aros yno ac mae'r rheiny sydd yn y chwarteri uchaf yn parhau i wneud yn dda. Gellir gweld manylion perfformiad Bwrdeistref Sirol Caerfili o'i gymharu ag awdurdodau lleol eraill yng Nghymru ar gyfer yr holl 20 dangosydd ar y rhyngwyd neu yn www.mylocalcouncil.info. Caewyd Amcanion Lles 2017/18 ym mis Ebrill 2018 a mabwysiadodd y Cyngor set newydd o Amcanion Lles ar gyfer y cyfnod 2018-2023 yn ei Gynllun Corfforaethol. Adroddir ar y flwyddyn gyntaf o gynnydd yn erbyn Cynllun Corfforaethol 2018-2023 yn haf 2019.

Dywedodd swyddogion fod angen gwelliant ar dudalen 14 o'r Adroddiad Perfformiad Blynyddol (ynghlwm wrth yr adroddiad). Dylai'r eicon ar gyfer pob disgybl sy'n gadael addysg orfodol heb gymhwyster allanol nodi bod dewis rhif 'isaf' yn fwy dymunol. Dylai'r dangosydd ar waelod y dudalen ymwneud â disgyblion mewn gofal awdurdod lleol yn unig a dylai adlewyrchu bod y dangosydd wedi gwella i lawr o 18.8% i 8%.

Trafododd y Cabinet yr amcanion a'r dangosyddion sy'n cwmpasu chwarter mesurau atebolrwydd cyhoeddus a safle dros 3 blynedd. Roeddent o'r farn bod y 'siwrnai' yn gyffredinol yn un o welliannau a bod y Cyngor yn symud ymlaen yn y cyfeiriad cywir.

PENDERFYNWYD yn amodol ar y diwygiadau uchod i dudalen 14 o'r Adroddiad Perfformiad Blynyddol (Atodiad 1), dylai'r eicon ar gyfer pob disgybl sy'n gadael addysg orfodol heb gymhwyster allanol nodi bod dewis 'isaf' yn fwy dymunol. Dylai'r dangosydd ar waelod y dudalen ymwneud â disgyblion mewn gofal awdurdod lleol yn unig a dylai adlewyrchu bod y dangosydd wedi gwella i lawr o 18.8% i 8%, ac am y rhesymau a geir yn adroddiad y Swyddog, argymhellir Adroddiad Perfformiad Blynyddol 2017/18 i'r Cyngor.

Terfynwyd y cyfarfod am 11.20am.

Cymeradwywyd a llofnodwyd ei fod yn gofnod cywir yn amodol ar unrhyw gywiriadau a wnaed yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 17eg Hydref, 2018.

Gadewir y dudalen hon yn wag yn fwriadol



CABINET - 17TH OCTOBER 2018

SUBJECT: THE RECOVERY OF FLYTIPPING CLEAN UP COSTS

REPORT BY: INTERIM CORPORATE DIRECTOR, COMMUNITIES

1. PURPOSE OF REPORT

- 1.1 To advise Cabinet and to seek a decision regarding the options available to the Council to recover the costs of cleaning up flytipping from perpetrators.

2. SUMMARY

- 2.1 At its meeting of 28th February 2018 Cabinet considered a report regarding fixed penalty notices for unauthorised deposits of waste and resolved to implement a fixed penalty for relevant fly tipping offences at the maximum level of £400 with no discount for early payment. Cabinet also requested that a further report be brought to Cabinet in relation to recovering the costs of cleaning up fly tipping offences.
- 2.2 The law of trespass offers a potential civil cause of action in order to pursue the recovery of flytipping clean-up costs. Trespass deals with interference with the enjoyment of land, but it is a proprietary claim and so is only an option in circumstances where the Council owns the land upon which waste is deposited.
- 2.3 Cabinet are therefore asked to consider a recommendation that the Council takes steps to recover the costs of flytipping against perpetrators of flytipping incidents on Council land where the amount being pursued is above the economical debt recovery threshold.

3. LINKS TO STRATEGY

- 3.1 Fly tipping blights our communities and it damages our environment. The prevention of fly tipping contributes to the following well-being goals within the Well-being of Future Generations Act (Wales) 2015:
- A sustainable Wales
 - A prosperous Wales
 - A more equal Wales
 - A Wales of more cohesive communities
 - A globally responsible Wales
- 3.2 Tackling flytipping supports the four Well-being Objectives within the Caerphilly Public Services Board Well-being Plan 2018-23, *The Caerphilly We Want* and also contributes to all of the Well-being Objectives within the Council's Corporate Plan 2018-23.

4. THE REPORT

- 4.1 In 2016/17 local authorities in Wales received 38,614 reports of fly tipping, costing the Welsh Tax payer over £2.18 million to clear. Caerphilly received 1992 reports of fly tipping, a reduction of 15% on the previous year's 2359, costing in excess of £150,000 to clear.
- 4.2 In response to public concerns about fly tipping and appropriateness of sanctions available the Welsh Government brought forward the Unauthorised Deposit of Waste (Fixed Penalties) (Wales) Regulations 2017. These Regulations introduce a new power enabling local authorities to serve a fixed penalty notice on a person found to be responsible for fly tipping offences. The Regulations provide local authorities with a more efficient and proportionate response to small scale fly tipping of waste instead of enforcement by prosecution. In addition it allows an individual to discharge their liability for conviction of the offence by payment of the fixed penalty. Unlike fines issued by the courts, receipts from fixed penalty notices issued under these Regulations are retained by the Local Authority.
- 4.3 At its meeting of 28th February 2018 Cabinet resolved to implement a fixed penalty for relevant fly tipping offences at the maximum level of £400 with no discount for early payment. Fixed penalty notices can be appropriate for offences involving small fly tips of non-hazardous waste, for example; it is expected that larger scale incidents would continue to be prosecuted through the courts. Cabinet also requested that this further report be brought to Cabinet in relation to recovering the costs of cleaning up fly tipping offences.
- 4.4 Legal Services advise that whilst acceptance and payment of a fixed penalty notice discharges criminal liability, the Courts have ruled that it does not amount to an admission of guilt (see R –v- Hamer [2010] EWCA Crim 2053). Therefore the Council could not rely on the payment of the fixed penalty as proof of any civil claim. This would still need to be proven on the balance of probabilities.
- 4.5 In order to pursue the recovery of flytipping clean-up costs it would be necessary to establish a cause of action in civil law. In terms of civil causes of action there are potentially two to consider: trespass and common law public nuisance. Trespass deals with interference with the enjoyment of land, but it is a proprietary claim and so is only an option in circumstances where the Council owns the land upon which waste is deposited. Common law public nuisance only becomes actionable in law if the claimant suffers 'particular damage' over and above the damage suffered by the public generally. Whilst this may be a possible cause of action on which to base any recovery of clean-up costs it is not designed for these circumstances, is rarely used since the introduction of specific environmental health legislation over the last few decades, and no precedent of the law being used in this way has been identified.
- 4.6 Corporate Finance advise that it is not economical to pursue County Court proceedings for smaller debts and these are proposed to the Head of Corporate Finance for write off.
- 4.7 It is therefore recommended that the Council takes steps to recover the costs of flytipping against perpetrators of flytipping incidents on Council land where the amount being pursued is above the economical debt recovery threshold. Each claim is to be considered on its merits by the Head Public Protection, Community & Leisure Services in consultation with the Head of Legal Services having regard to need for it to be proven on the balance of probabilities and the prospects of a successful recovery.

5. WELL-BEING OF FUTURE GENERATIONS

- 5.1 The Well-being of Future Generations (Wales) Act commenced in April 2016. The Act is about improving the social, economic, environmental and cultural well-being of Wales. It aims to make public bodies listed in the Act think more about the long term; work better with people and communities and each other; look to prevent problems and; take a more joined-up approach.

5.2 The Council's approach to addressing flytipping aims to be consistent with the five ways of working as defined within the sustainable development principle in the Act:

- Involvement - This would include actively encouraging individuals to report issues and incidents.
- Collaboration – working with partners including Natural Resources Wales, Fly Tipping Action Wales and local stakeholders.
- Long Term - aiming to reduce both short term and long term risks to the public from fly tipping and will seek to improve the living environment.
- Integration - contributing to health objectives through minimising the exposure to fly tipping and also contributing to resilient objectives by promoting and ensure a clean safe environment.
- Prevention - aiming to minimise the public to the exposure to risk that illegally deposited materials can generate.

6. EQUALITIES IMPLICATIONS

6.1 There are no potential equalities implications of this report and its recommendations on groups or individuals who fall under the categories identified in Section 6 of the Council's Strategic Equality Plan 2016-2020.

7. FINANCIAL IMPLICATIONS

7.1 As stated above, in 2018/19 the Council spent approximately £1xx, xxx cleaning up flytipping and any recovery of those costs from perpetrators will reduce the burden on Council tax payers.

8. PERSONNEL IMPLICATIONS

8.1 There are no personnel implications arising from this report.

9 CONSULTATIONS

9.1 This report has been sent to the consultees listed below and all comments received are reflected in this report.

10. RECOMMENDATIONS

10.1 It is recommended that Cabinet agree:

- (i) that the Council takes steps to recover the costs of flytipping against perpetrators of flytipping incidents on Council land where the amount being pursued is above the economical debt recovery threshold.
- (ii) each claim is considered on its merits by the Head of Public Protection, Community & Leisure Services in consultation with the Head of Legal Services, having regard to need for it to be proven on the balance of probabilities and the prospects of a successful recovery.

11. REASONS FOR THE RECOMMENDATIONS

11.1 In order to recover costs incurred by the Council and to deter flytipping.

12. STATUTORY POWER

12.1 Local Government Act 2000.

Author: Rob Hartshorn, Head Public Protection, Community & Leisure Services
Consultees: Councillor Eluned Stenner, Cabinet Member for Environment & Public Protection
Councillor Nigel George, Cabinet Member for Neighbourhood Services
Mark S. Williams, Interim Corporate Director, Communities
Rob Tranter, Head of Legal Services and Monitoring Officer
Hayley Jones, Waste Strategy and Operations Manager
Ceri Edwards, Environmental Health Manager
Mike Headington, Green Spaces and Transport Services Manager
James Williams, Senior Solicitor
Lisa Lane, Solicitor
Anwen Cullinane, Senior Policy Officer (Equalities & Welsh Language)
Mike Eedy, Finance Manager
Craig Verrier, Senior Income Officer
Shaun Watkins, Human Resources Manager

Background Papers:

Cabinet Report – “Fixed Penalty Notices for the Unauthorised Deposit of Waste” 28th February 2018



CABINET - 17TH OCTOBER 2018

SUBJECT: EUROPEAN SOCIAL FUND OPERATION NURTURE EQUIP THRIVE (NET)

REPORT BY: CORPORATE DIRECTOR FOR EDUCATION AND CORPORATE SERVICES

1. PURPOSE OF REPORT

- 1.1 To seek Cabinet approval for Caerphilly's involvement in the European Social Fund operation - Nurture Equip Thrive (NET).

2. SUMMARY

- 2.1 Nurture, Equip and Thrive (NET) is an operation to address underemployment across 5 Local Authorities (Caerphilly, Torfaen, Merthyr Tydfil, Blaenau Gwent, Bridgend) in South East Wales (West Wales and the Valleys). This will be achieved through a collaborative approach. The operation aims to engage, support and prepare employed individuals with work limiting health conditions and / or other barriers to gain sustainable employment.
